Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

## 18 Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad o Gyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am 2024/25 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

1.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaeth y BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid, ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn Datganiad o Gyfrifon y CBC o 2025/26.

### 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi a derbyn Datganiad o Gyfrifon drafft y BUEGC (yn amodol ar archwiliad) am 2024/25.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Nid oes gofyniad statudol i'r CBC gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon, ond rydym o'r farn bod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

3.2. Bydd angen i'r CBC gymeradwyo'r fersiwn derfynol ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ac mae cyflwyno'r fersiwn drafft rŵan yn gyfle i aelodau'r CBC ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r CBC ar 13 Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

4.2. Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru, a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad i'w gymeradwyo mewn cyfarfod diweddarach o'r CBC.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwilio gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae’r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Datganiad o Gyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am 2024/25

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.